# CYNLLUN GWERS AR GYFER SEGURA DIM MWY

Dyniaethau

## Disgrifiadau o ddysgu

- Rwy'n dechrau cydnabod yr effeithiau rydw i'n eu cael ar y byd naturiol.
- Rwy'n dechrau deall bod canlyniadau i fy ngweithredoedd i a gweithredoedd eraill.

## Amcanion dysgu:

- Rwy’n gallu nodi rhai ffynonellau llygredd aer.
- Rwy’n gallu esbonio sut mae llygredd aer yn effeithio ar bobl.

## Datblygu sgiliau

- Rhannu meddyliau a barn
- Gwrando ar feddyliau a barn pobl eraill a'u parchu

## Adnoddau sydd eu hangen

- Cynllun Gwers Segura Dim Mwy
- Cyflwyniad Gwers Segura Dim Mwy
- Gêm Didoli Gweld y Mwg
- Poster Ymgyrch Enghreifftiol
- Taflen Ffeithiau Rhieni
- Tystysgrif Hyrwyddwr Aer Glân
- Taflen Weithgaredd Bod yn Hyrwyddwr Aer Glân
- Geiriau allweddol, os oes angen

| Geirfa allweddol | Dysgu blaenorol |
|---|---|
| aer, ocsigen, anadl, anadlu, segura, ysgyfaint, llygredd, mygdarth, mwg, plaladdwyr, cemegau, Daear, naturiol, amgylchedd, amddiffyn, bywyd, cyflwr yr ysgyfaint, asthma, salwch, dinesydd byd-eang, cyfrifoldeb, coed, planhigion, ffatrïoedd, cerbydau, plastig, ailgylchu, llygredd | Efallai y byddai'n ddefnyddiol bod wedi dysgu ychydig am y corff dynol ac i ddisgyblion ddeall ein bod ni'n defnyddio ein hysgyfaint i anadlu. Gallech ddangos i ddisgyblion ble mae ein hysgyfaint wedi'u lleoli yn ein cyrff, efallai ar boster neu gyda fideo syml am yr ysgyfaint. |

| Amser | Gweithgaredd Athrawon | Addasiadau |
|---|---|---|
| 15 munud | Fel dosbarth cyfan, rhannwch y **Cyflwyniad Gwers** i ddysgu am segura ceir a sut mae hyn yn cyfrannu at lygredd aer o amgylch ysgolion. Esboniwch y gall hyn gynyddu'r swm o fygdarth gwenwynig o amgylch yr ysgol. Trafodwch bwysigrwydd aer glân a phethau y gallwn ni i gyd eu gwneud i wella'r mater o lygredd aer. Esboniwch i blant y gwahaniaeth rhwng ceir trydan a cheir sy'n rhedeg ar danwydd a sut mae ceir trydan yn well i'r amgylchedd.<br><br>Rhowch amser i ddisgyblion ymateb i'r cwestiynau yn y cyflwyniad, gan sicrhau bod disgyblion yn gwrando ar sylwadau a barn ei gilydd ac yn parchu eu gilydd. | Esboniwch eirfa yn y cyflwyniad yn ôl yr angen. Ewch ati i wahodd ac ateb cwestiynau drwy'r cyfan i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. |
| 10 munud | Rhannwch y daflen **Gêm Didoli Gweld y Mwg** i ddisgyblion. Gofynnwch iddyn nhw ddidoli'r lluniau yn 'llygredig' vs 'glân'. | Cynorthwywch blant i drefnu'r lluniau yn y lle cywir, gan eu hannog i feddwl pam mae pob un yn llygru neu'n gwneud yr aer yn lân. |
| 10 munud | Dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd i drafod eu hatebion a'u rhesymau dros ddidoli ym mhob categori. Trafodwch gyda’r plant pam mae rhai cerbydau yn creu mwy o lygredd nag eraill a'r dewisiadau bach y gallwn ni i gyd eu gwneud i gyfrannu at lai o lygredd aer e.e. cerdded, beicio neu fynd ar y bws i'r ysgol, gofyn i rieni ddiffodd eu hinjans wrth aros yn agos at yr ysgol. | Rhowch gyfle i unrhyw blant sydd â mwy o ddealltwriaeth o lygredd aer neu gyflyrau'r ysgyfaint fel asthma i ddweud mwy amdano wrth y dosbarth. |
| 15 munud | Rhannwch y **Poster Ymgyrch Dosbarth Enghreifftiol** gyda disgyblion. Eglurwch eu bod yn mynd i greu eu poster eu hunain i annog camau cadarnhaol fel 'Diffoddwch eich injan wrth aros' neu 'Cerddwch i'r ysgol pryd bynnag y gallwch chi'. Gyda’ch gilydd, taflwch syniadau am sloganau eraill y gallai'r plant eu defnyddio ar gyfer y posteri hyn. | Cefnogwch y plant i wneud y posteri yn ddiddorol ac yn drawiadol. |
| 10 munud | Gofynnwch i'r plant feddwl am Addewid Aer Glân sy'n manylu ar gamau y byddant yn eu gwneud i helpu i leihau llygredd aer a cheir segur e.e. 'Byddaf yn cerdded, beicio neu’n mynd ar sgwter i'r ysgol!'.<br><br>Os oes amser, gallai plant dynnu llun o'r hyn y byddant yn ei wneud i helpu neu ysgrifennu eu haddewid ar stribed o bapur i'w arddangos yn yr ystafell ddosbarth. | Efallai y bydd angen crynodeb ar rai plant o'r camau y gallent eu cymryd yn ystod yr adran hon. |

## Myfyrdodau gwers / camau nesaf / nodiadau athrawon

### Cyfleoedd asesu

- Ydy disgyblion yn gallu esbonio beth yw segura ceir a sut mae hyn yn cyfrannu at lygredd aer?
- Ydy disgyblion yn gallu disgrifio pam mae aer glân yn well i ni?
- A all disgyblion nodi camau y gallwn ni eu cymryd i wella ansawdd aer?

### Awgrymiadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol

- Efallai yr hoffech chi fynd â phlant am dro o amgylch yr ysgol i'w helpu i nodi ardaloedd lle mae cyfleoedd ar gyfer aer glanach.

### Cyfleoedd dysgu yn y cartref

- Mae'r Pecyn Dysgu yn y Cartref yn cynnwys **Taflen Gweithgaredd Byddwch yn Hyrwyddwr Aer Glân! , Tystysgrif Hyrwyddwr Aer Glân a Thaflen Ffeithiau Rhieni** er mwyn i blant nodi a helpu i leihau segura ceir ger cartref neu ysgol. Gall plant dreulio amser yn edrych y tu allan i'r cartref neu wrth fynd am dro yn gweld ceir sydd wedi stopio ond gyda'u hinjans ymlaen a thynnu llun o'r hyn maen nhw'n ei weld.
- Anogwch ddisgyblion i siarad ag oedolyn gartref am segura ceir a pham mae aer glân yn bwysig.
- Dywedwch wrth blant yr hoffech chi iddyn nhw ddod yn 'Arwyr Aer'. Anogwch blant i gerdded, fynd ar sgwter neu feicio i'r ysgol un diwrnod yn yr wythnos. Os oes angen i blant deithio i'r ysgol mewn car, anogwch nhw i atgoffa eu hoedolion i ddiffodd eu hinjans pan fyddant wedi parcio. Pan fydd plant yn dychwelyd eu gweithgaredd neu'n dweud rhywbeth maen nhw wedi'i wneud i hyrwyddo aer glân, rhowch **Dystysgrif Hyrwyddwr Aer Glân** iddynt. Gellid arddangos y tystysgrifau ar wal yr ystafell ddosbarth gyda phost yn esbonio beth wnaeth y plentyn i ddod yn 'Hyrwyddwr Aer Glân'.